



LUNED AARON

Enw: Luned Aaron

Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu? Bangor

Ble aethoch chi i'r ysgol? Ysgol y Garnedd ac Ysgol Tryfan

Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol? Yn yr ysgol gynradd, ro'n i'n hoff iawn o amser stori a sesiynau crefft a pheintio, ond do'n i ddim mor hoff o 'ddawnsio' mewn *leotard* mewn dawnsfeydd creadigol ar lwyfannau eisteddfodau ... Yn yr ysgol uwchradd, roedd yn gas gen i Fathemateg a Ffiseg ond ar ben fy nigon yn y gwersi Celf a Drama.

Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny? Awdur

Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn? Ro'n i'n hoff iawn o'r gyfrol *Y Pry Bach Tew* gan Mary Vaughan Jones, wedi ei darlunio gan Rowena Wyn Jones

Beth yw eich diddordebau? Yn eu mysg: darllen, crefftau, beicio a ffilmiau.

Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus? Gweld fy mhlant yn gwneud petha doniol!

Pryd ddechreuoch chi feddwl am ysgrifennu? Rhywbeth greddfol ers bod yn blentyn oedd ysgrifennu ac ro'n i'n cael llawer o anogaeth gan fy rhieni ac ambell athro. Daeth y posibilrwydd i mi ddilyn gyrfa o ysgrifennu mewn gwers Lefel A Drama pan ddaeth y diweddar ddramodydd dawnus, Meic Povey, i siarad gyda ni am ei brofiad o ysgrifennu ar gyfer y llwyfan a'r sgrin. Profiad ysbrydoledig. Roedd ennill y Fedal Ddrama yn Eisteddfodau'r Urdd yn ysgogiad arall ac yn gadarnhad mod i ar y trywydd cywir.

Pryd ddechreuoch chi feddwl am fod yn ddarlunydd? Digwydd yn naturiol wnaeth hyn wrth i mi greu cyfrol i

blant bach pan oedd fy merch ifancaf yn fychan. Dwi'n cofio mwynhau modiwl creu llyfr pop-up i blant bach yn ystod fy ngwersi celf Lefel A, ond wnaeth arlunio fel gyrfa ddim croesi fy meddwl am flynyddoedd lawer.

O ble rydych chi'n cael eich syniadau?

Mae syniadau'n dod o bob cyfeiriad ... Gall fod yn rhywbeth fel gor glywed pwt o sgwrs ar y stryd neu mewn caffi, pennawd erthygl papur newydd, breuddwyd hyd yn oed ... Y gamp, am wn i, ydi bod yn effro i'r syniadau a'u nodi nhw cyn iddyn nhw fynd yn angof.

Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch? Byd natur a phlentyndod.

Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu? 'Sgwenna!

Beth yw'r peth gorau / gwaethaf am fod yn awdur?

Cael gwneud y swydd, fwy neu lai, yn unrhyw le a chael ymgolli yn y broses o greu. Fedra i ddim meddwl am lawer o bethau gwael a bod yn onest. Colli talp o waith o bosib!

Beth yw'r peth gorau / gwaethaf am fod yn ddarlunydd? Y peth gorau ydi'r caniatâd i chwarae gyda phaent fel gyrfa. Anodd meddwl am y peth gwaethaf ... Paent yn staenio hoff ddilledyn o bosib?!

Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio darlunio?

Mae nodi syniadau'n gyson a chadw llyfr brasluniau yn syniad da. Gall cadw golwg ar waith artistiaid eraill fod yn ysgogiad (ond triwch eich gorau i beidio cymharu eich hun â nhw!) Syniad da hefyd ydi mynd i orielau ac arddangosfeydd gan eu bod nhw wir yn gallu deffro'r dychymyg.



Cwestiynau Cyflym

Hoff lyfr o'ch plentyndod?

Anodd dewis. Yn fychan, ro'n i'n hoff iawn o straeon *Y Pry Bach Tew* gan Mary Vaughan Jones a chyfres *Rwdlan* gan Angharad

Tomos. Yn hŷn, ro'n i'n mwynhau llyfrau'r awduron C.S Lewis, Gwenno Hywyn, Judy Blume, Roald Dahl a T. Llew Jones.

Hoff gymeriad o lyfr? Ceridwen o gyfres *Rwdlan*

Hoff le? Portmeirion

Hoff fwyd? Bwyd *Thai* a Siapaneaidd

Hoff raglen deledu? Dwi wrth fy modd â'r gyfres gomedi *Flight of the Conchords*.

Hoff air? Dilyffethair

Superpower o ddewis? Mi fydda gallu hedfan yn hollol anhygoel

Hoff rhwydwaith cyfryngau cymdeithasol? Instagram

Beth sy'n gwneud i chi wenu?

Cân yr adar bach

Swydd tase chi dim yn awdur?

Swydd ddelfrydol? Blaswr siocled

Top tip i ddarpar awdur: Nodi syniadau a sgwenna mor aml â phosib heb fod yn rhy feiriadol o'ch ymdrechion

Top tip i ddarlunwyr y dyfodol:

Arluniwch yn gyson!

